# Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol

## Adroddiad Blynyddol 2017-18

**31ain Mai 2018**

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 3
Cyflwyno Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yng Nghymru ........ 4
Cynyddu Ymwybyddiaeth a Gwella Ymatebion Gwasanaethau Cyhoeddus ........ 8
Cyd-drefniant a Darparu Hyfforddiant ........ 10
Gwefan a Chyfathrebiadau ASDinfoWales ........ 11
Cymorth ac Ymwybyddiaeth Parhaus Cyffredinol ........ 13
Y Flwyddyn o'n Blaenau 2018/19 ........ 14
ATODIADAU ........ 16
Hyfforddiant Rhaglen Arsylwi Diagnostig Awtistiaeth (ADOS) - Cyfweliad Diagnostig Awtistiaeth - Diwygiedig (ADiR) ........ 16
Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Blynyddoedd Cynnar ........ 16
Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Ysgolion Cynradd ........ 17
Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Ysgolion Uwchradd ........ 18
Astudiaethau Achos ........ 20

## Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol yn ystod 2017-18. Mae'r Tîm yn cael ei westeio gan yr WLGA, ac wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, amrywiol bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru.

Bu'n gyfnod cyffrous a heriol i'r Tîm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac o ran cefnogi datblygu a chyflwyno Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ledled Cymru. Bu i ni hefyd barhau i weithio ar ddatblygu adnoddau newydd er mwyn cefnogi gwaith parhaus Arweinwyr Awtistiaeth ac eraill sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn arfogi gweithwyr proffesiynol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion pobl awtistig a sut y gellir bodloni'r anghenion hynny.

Mae'r Tîm wedi ehangu yn ystod y blynyddoedd doethaf gydag ymadawiad o staff uwch ond mae'r WLGA yn ddiolchgar iawn am ei gwasanaethau.

Bu i'r Tîm gael nifer o lwyddiannau nodedig yn ystod y flwyddyn. Mae hynny o ganlyniad i weithio'n agos a staff a rhanddeiliaid ledled Cymru, ac mae'r Tîm yn dal yn rhwymedig i adeiladu ar hynny ac i ymgorffori ymarfer dda ledled Cymru. Fodd bynnag, er gwaethaf gwaith caled staff a phartneriaid, nid yw rhai meysydd gwaith yn mynd rhagddynt mor gyflym ag y gobeithiwyd ar y cychwyn, a bydd y rhain yn cael eu cario ymlaen eleni. Er bod gwelliannau mewn meysydd allweddol wedi cael eu gwneud, a bod ymwybyddiaeth y cyhoedd a sensitifrwydd tuag at awtistiaeth yn parhau i gynyddu, mae yna lawer i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod pobl awtistig yn derbyn diagnosis amserol, cymorth a chefnogaeth briodol a'u bod yn gallu cyflawni gwell deilliannau ym mhob agwedd o'u bywydau.







# Cyflwyno Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yng Nghymru

Bu i'r Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol chwarae rôl gritigol wrth sefydlu a chefnogi datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru, sy'n arloesedd pwysig a grëwyd gan y Tîm yn dilyn ymgysylltu helaeth a phobl awtistig, eu teuluoedd a gofalwyr, partneriaid allweddol a gweithwyr proffesiynol. Gan weithio'n agos â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac iechyd, mae IAS rhanbarthol wedi ac yn cael eu datblygu, gan gyfrannu at wasanaeth cenedlaethol sydd â safonau ac arferion cyffelyb a chyson, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chynnig atebion ymarferol i ystod o heriau.

Yn ystod y flwyddyn crëwyd nifer o ISA rhanbarthol ac roeddent yn weithredol, tra bod rhanbarthau eraill yn parhau i wneud cynnydd - disgwylir y bydd yna IAS gweithredol ym mhob rhanbarth erbyn hydref 2018. Bu i'r Tîm chwarae rôl allweddol wrth gefnogi creu a ffurfio IAS ar gyfer Cymru, ac maent wedi parhau i gefnogi'r gwaith o'u creu a'u sefydlu gan barhau i wneud hynny ar gyfer yr ardaloedd hynny nad ydynt yn gwbl weithredol hyd yma. Er mwyn cefnogi datblygiad IAS, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Tîm wedi:

- Cynhyrchu Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer yr IAS yng Nghymru, gan nodi'r rôl a'r strwythur, a
- Darparu sesiynau hyfforddi arbenigol ASA/IAS dros bum diwrnod ar gyfer tri ISA
- Hwyluso a chefnogi digwyddiadau Llwybrau ac Ymgysylltu yn rhanbarthol

Mae'r Swyddogion Datblygu ASA Rhanbarthol wedi gweithio'n agos ar y lefel ranbarthol o ran helpu i siapio a sefydlu IAS. Mae'r adnodd critigol yma wedi galluogi rhoi cymorth penodol ar gyfer anghenion y rhanbarth hwnnw a sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu datblygu yn y ffordd fwyaf priodol tra'n cynnal cysondeb ag IAS eraill. Isod darperir trosolwg crynodol o bob IAS rhanbarthol a'r cynnydd a wnaed eleni o ran eu sefydlu:

**Caerdydd a'r Fro**

Lansiwyd y tîm ym Medi 2017, er nad oes ganddo staff llawn a heb safle parhaol tan fis Mawrth 2018. Mae'r Gwasanaeth wedi cyfuno nifer o wasanaethau sy'n bodoli gyda'r IAS newydd. Erbyn hyn mae asesu a diagnosis oedolion yn cael ei ymgorffori'n effeithiol i'r gwasanaetha sefydlwyd cysylltiadau cydnerth a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion - gweithiwyd ar nifer o achosion iechyd meddwl ar y cyd â'r tîm. Hefyd, mae'r gwasanaeth wedi cynnig cyngor ac arweinid arbenigol i ystod o weithwyr proffesiynol ac mae'n gweithio'n agos â chydweithwyr o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol - mae hynny wedi cynnwys datblygu adnoddau ynghylch sut mae addasu arferion. Mae cymorth wedi cael ei ddarparu ar sail unigol a grŵp e.e. grwpiau Socialeyes, gweithdai Sgiliau Byw, y fforwm misol. Mae adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn 'mae un person wedi gadael y tŷ heb gwmni ar ôl nifer o flynyddoedd' a 'roedd nifer o ofalwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi.'

**Cwm Taf**
Mae gwaith cwmpasu cychwynnol wedi cael ei wneud gan y tîm sydd wedi ein hysbysu ynghylch sut mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno. Erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn weithredol ac yn agored i dderbyn atgyfeiriadau, ond ni fydd ganddo staff llawn tan Mehefin 2018. Mae nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhieni/gofalwyr wedi cael eu cynnal cyn i'r tîm gychwyn ar eu gwaith er mwyn sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir yn lleol o'r hyn fyddai rôl y tîm. Hefyd, bu ymgysylltu effeithiol gyda phartneriaid er mwyn helpu i siapio ffordd y cyflwynir y gwasanaeth ac er mwyn clustnodi meysydd ar gyfer cydweithio.

**Gwent**
Mae IAS Gwent wedi bod yn weithredol ers Medi 2017. Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan Reolwr Gwasanaeth gaiff ei gyflogi ar y cyd gan Gyngor Sir Fynwy a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'r tîm wedi llwyddo i leihau amser aros Diagnostig Oedolion, ond mae'r galw yn cynyddu a bydd cynnal asesiadau diagnostig ar y lefel yma yn her. Mae cymorth yn cael ei gynnig ar lefel unigol a grŵp - sy'n cynnwys sesiwn galw i mewn wythnosol rheolaidd. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn:

> *"Diolch yn fawr iawn, dyma'r tro cyntaf i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arnaf ac yn rhoi cefnogaeth i mi, ac mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth yn barod" (unigolyn).*
>
> *"Diolch am bopeth yr ydych wedi ei wneud i fy nghefnogi" (unigolyn).*
>
> *"Rwyf yn gresynu nad oeddwn wedi mynychu'r cwrs yma amser maith yn ôl" (gweithdy ôl ddiagnostig).*

Mae'r tîm wedi partneru â Rhaglen Cleifion Arbenigol er mwyn cynnal rhai sesiynau arloesol ac effeithiol - yn cynnwys un ar adeiladu hyder. Hefyd, mae'r tîm yn parhau i roi gwybodaeth a chyngor i unigolion Awtistig, eu rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Cynhaliwyd digwyddiad codi ymwybyddiaeth o ASA ar y cyd gyda'r gwasanaethau niwro-ddatblygiadaol yn ystod Wythnos Awtistiaeth y Byd.

**Gogledd Cymru**
Bydd yr IAS yn cael ei lansio'n swyddogol ar 27 Mehefin ac mae trefniadau yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i gynnal cynhadledd er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth i amrywiaeth o randdeiliaid ar draws Gogledd Cymru. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud o ran cefnogi datblygu'r IAS ac o ran y cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan y rhanbarth. Mae'r staff yn tyfu ac mae mwy o benodiadau llwyddiannus yn cael eu gwneud i staffio'r IAS> Mae'r safle gweithredol wedi cael ei glustnodi (Canolfan Fusnes Greenfield) ac mae offer priodol yn cael e osod e.e. TG.

Mae ymdrech sylweddol wedi cael ei wneud er mwyn gweithio mewn ffordd cydgynhyrchiol a sicrhau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r IAS ac er mwyn sicrhau ei fod wedi ei alinio'n briodol, cynhaliwyd dau

ddigwyddiad llwybrau IAS. Hefyd, mae Ymgynghorwyr Profiad Bywyd wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd gweithredol, grwpiau gorchwyl a gorffen a phanelau cyfweld.

**Powys**
Powys oedd yr IAS cyntaf i gael ei ddatblygu ac roedd yn weithredol ym Mehefin 2017. Mae'r gwasanaeth wedi ymgymryd â swm anferth o waith wrth ddatblygu eu systemau a'u prosesau ac mae hynny wedi helpu i hysbysu'r gwaith o ddatblygu IAS mewn ardaloedd eraill. Cynhaliwyd ymarferiad mapio a bylchu er mwyn cwmpasu grwpiau rieni/gofalwyr sy'n bodoli yn y sir. Bydd grwpiau newydd yn cael eu sefydlu gyda'r nod o fod yn hunangynhaliol yn yr hirdymor ac mewn partneriaeth â'r trydydd sector os bydd angen. Comisiynwyd asesiadau diagnostig oedolion dros dro tra bod y gwasanaeth yn cael ei sefydlu. Hefyd, sefydlwyd amrywiaeth o ymyriadau cymorth ar lefel unigol a grŵp e.e. rhaglen hamdden yn Ne'r Sir fydd yn cael ei hefelychu yn y Gogledd os bydd yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi chwarae rôl allweddol o ran uwchraddio sgiliau gweithwyr proffesiynol mewn perthynas ag ystod o ddisgyblaethau, a chynnig cyfarwyddyd a chyngor. Bydd y Gwasanaeth yn peilota'r offeryn asesu a chynllunio Outcome Star - os bydd yn effeithiol, bwriedir cyflwyno'r offeryn hwn i bob ISA.

**Gorllewin Cymru**
Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Penodwyd 3 Gweithiwr Cymorth a Swyddog Gweinyddol ac mae swydd Arweinydd Tîm yn cael ei hysbysebu. Bydd gweddill yr aelodau tîm yn cael eu recriwtio erbyn Medi 2018. Mae cyfran o gyllid 17/18 wedi cael ei dargedu ar gyfer mynd i'r afael ag amseroedd aros asesu diagnostig ar gyfer Oedolion a Phlant. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud eisoes er mwyn lleihau rhestr aros Diagnostig oedolion, fel na fydd gan yr IAS ôl-groniad hanesyddol helaeth pan fydd yn weithredol. Mae atebion allanol a mewnol wedi cael eu comisiynu er mwyn mynd i'r afael â'r rhestr aros Plant. Mae safle wedi cael ei glustnodi fydd yn galluogi i'r IAS a thîm ND plant gael eu cydleoli, a bydd hynny yn cynorthwyo o ran cydweithio a mynediad at ofod clinigol ar gyfer asesu.

**Bae'r Gorllewin**
Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd hefyd. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu llwyddiannus gyda rhieni, gofalwyr, unigolion awtistig a gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth newydd yn bodloni anghenion lleol. Mae Rheolwr Gwasanaeth wedi cael ei benodi a bydd yn cychwyn yn ei swydd ym mis Awst 2018. Bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn goruchwylio'r broses o recriwtio aelodau eraill o'r tîm ac yn datblygu'r gwasanaeth. Hefyd, mae cyllid wedi cael ei ddefnyddio er mwyn darparu clinigau ychwanegol er mwyn lleihau'r amseroedd aros ar gyfer asesu a diagnosio plant. Bydd y rhan yn cael ei darparu yn 2018/19.

**Casglu Data**
Er mwyn sefydlu dull casglu data cyson ledled Cymru, datblygwyd system gasglu data ar-lein hawdd ei ddefnyddio yn ystod 2017/18, fel datrysiad tymor byr nes bod y system WCCIS genedlaethol newydd ar gael ym mhob rhanbarth. Nid aeth y

datblygiad rhagddo mor gyflym ag y disgwyliwyd a bu pryderon ynghylch rheolaeth leol. Hefyd, wrth i'r broses o gyflwyno WCCIS fynd rhagddo 'n gyflym, penderfynodd Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ddull casglu data interim syml nes bod bob rhanbarth yn gallu cael mynediad at WCCIS. Mae rhai rhanbarthau eisoes wedi trosglwyddo i WCCIS a bydd hynny yn darparu adborth cynnar ar ei effeithiolrwydd.

Bydd y **Rhwydwaith Arweinwyr IAS Cenedlaethol**, sydd newydd gael ei sefydlu, yn cydweithredu â'r Tîm a LlC er mwyn cwblhau templedi adroddiadau ICF ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn darparu gwybodaeth ar y deilliannau ac effaith y gwasanaethau.

**Hyfforddiant**
Er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno IAS ar lefel genedlaethol, trefnwyd nifer o gyrsiau hyfforddi a/neu fe'u darparwyd gan y Tîm:

- Ym Medi a Hydref 2017, darparwyd cwrs hyfforddiant 5 diwrnod gan yr Arweinydd Datblygu ASA Cenedlaethol. Roedd yn becyn hyfforddiant arbenigol a ddatblygwyd gan y Tîm oedd yn cynnwys amrywiaeth o destunau ymarferol yn cynnwys symptomau craidd awtistiaeth, profiadau unigolion awtistig a straen ar rieni. Hefyd, roedd yr hyfforddiant yn cynnwys addasu ymarferion wrth weithio gyda rhieni, problemau cyffredin mewn plant awtistig, ac roedd yn cynnwys enghreifftiau ymarferol ac astudiaethau achos. Trafod IAS yn y cyd-destun cenedlaethol yn ogystal â gweithio ar enghreifftiau o achosion unigol y byddai disgwyl i'r IAS weithio arnynt ac mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill, a pryd y byddai cyfeirio yn briodol. Hefyd trafodwyd cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd mewn perthynas ag awtistiaeth, yn cynnwys ADHD, GAD, ACD ac iselder. Cafwyd ymateb da iawn i'r cwrs hyfforddiant, a nododd y cyfranogwyr ei fod nid yn unig yn gyfle i ddysgu mwy o wybodaeth drylwyr, ond hefyd yn gyfle i atgyfnerthu cyfeiriad strategol yr IAS.

- Yn ystod Medi 2017 a Ionawr 2018, bu i 16 aelod staff a 3 rhanbarth elwa o hyfforddiant gan Dîm DISCO. Hwn yw'r Cyfweliad Diagnostig ar gyfer Anhwylderau Cymdeithasol a Chyfathrebu (DISCO), ac fe'i defnyddir fel offeryn clinigol ac offeryn ymchwil ar gyfer ei ddefnyddio gyda phlant ac oedolion o bo oed. Mae hyn yn darparu sgiliau i gynrychiolwyr allu defnyddio'r offeryn diagnostig yma o fewn yr IAS.

- Dros 5 diwrnod ym Mawrth 2018 cynhaliwyd cwrs hyfforddi Rhaglen Arsylwi Diagnostig Awtistiaeth (ADOS)/ Cyfweliad Diagnostig Awtistiaeth - Diwygiedig (ADiR) cyfun, a gomisiynwyd ac a gydlynwyd gan y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol, ar gyfer 12 aelod staff ar draws 4 IAS rhanbarthol. Darparwyr y cwrs hyfforddi gan "BeginningwithA" ac roedd y staff yn sicrhau bod gan staff yr arfau i weinyddu a chodio ADOR ac ADiR. Mae adborth o'r hyfforddiant ar gael yn Atodiad 1.

Er bod llawer o amser Swyddogion Datblygu Awtistiaeth Rhanbarthol yn cael ei dreulio yn gweithio gyda ac yn cefnogi esblygiad parhaus a phroses ddysgu'r IAS, maent hefyd yn cynnal gweithgareddau eraill ac yn darparu amrywiaeth o gymorth yn unol anod a gwaith y Tîm datblygu ASA Cenedlaethol ehangach.  Mae hynny yn cynnwys cefnogi cyflwyno'r adnoddau a'r rhaglenni/ymgyrchoedd fel y nodir isod, gan ddarparu nifero sesiynau hyfforddi a briffio ledled Cymru ynghylch cynyddu ymwybyddiaeth ac addysgu sefydliadau a staff o ran bod yn 'ymwybodol o awtistiaeth'.

## Cynyddu Ymwybyddiaeth a Gwella Ymatebion Gwasanaethau Cyhoeddus

### Dysgu gydag Awtistiaeth

Eleni lansiwyd Rhaglenni *Dysgu gydag Awtistiaeth* Blynyddoedd Cynnar ac Uwchradd yn llwyddiannus gyda chymorth amrywiaeth o adnoddau.

**Mae'r rhaglen Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys y canlynol:**

- **Ffilm hyfforddi i staff blynyddoedd cynnar**, sy'n dango rhai o'r heriau y mae plant ag ASA yn eu wynebu yn ystod diwrnod arferol, wedi ei dylunio i datblygu ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth ynghylch y camau y gallwn eu cymryd i wella eu profiadau a lefelau ymgysylltu  Mae hynny yn cynnwys holiadur ar-lein sy'n arwain at Dystysgrif Staff mewn Ymwybyddiaeth ASA.
- **Awtistiaeth: Canllaw i Sefydliadau Blynyddoedd Cynnar**, canllawiau cyflawn ar gyfer deall a chefnogi plant ag ASA.
- Dau **offeryn  hunanwerthuso**: un ar gyfer holl sefydliadau gofal plant e.e. grwpiau chwarae, Dechrau'n Deg a sefydliadau nad ydynt yn cael eu cynnal, yn seiliedig ar fframwaith archwilio CSSIW ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a gofal plant. A'r llall sy'n seiliedig ar fframwaith archwilio Estyn ar gyfer pob sefydliad sy'n darparu llefydd cyfnod sylfaen. Bydd y ddau offeryn hunanasesu yn helpu sefydliadau i glustnodi darpariaeth ac ymarfer presennol ac i gynllunio a monitro gwelliannau.
- **cyflwyniad Power Point** am y materion sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth, **holiadur ar-lein** sy'n arwain at **Dystysgrif mewn Ymwybyddiaeth ASA ar gyfer staff sefydliadau blynyddoedd cynnar eraill (arlwyo, gweinyddu ac yn y blaen)**
- Ar gyfer disgyblion, ceir '**Teifi a'i Ffrindiau**', ffilm animeiddiedig sy'n dangos sut y gall plant mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar fod yn garedig a chroesawgar tuag at gyfoedion ag anghenion ychwanegol.  Mae'r Tîm hefyd ar hyn o bryd yn datblygu llyfr straeon Teifi er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r rhaglen Blynyddoedd Cynnar fel ymateb i'r adborth a dderbyniwyd.
- Amrywiaeth o adnoddau cymorth am ddim ar-lein megis:
  - **Proffil Plant** - ar gael i staff, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Gyda phawb yn gweithio gyda'i gilydd, gall ddatblygu i fod yn

adnodd effeithiol, gan sicrhau bod yna gysondeb a dilyniant gofal ar gyfer plentyn ag ASA.

- **Cardiau Lluniau i Blant** - adnodd rhyngweithiol syml, sy'n eich galluogi i chwilio, dewis. lawrlwytho ac argraffu cyfres o gardiau lluniau dwyieithog, er mwyn creu siart strwythur ar gyfer plentyn ag ASA, gan ddarparu strwythur dyddiol neu ar gyfer cefnogi gweithgareddau penodol megis hyfforddiant tŷ bach.
- **Cardiau Negeseuon** - er mwyn cefnogi cyfarwyddiadau llafar gyda negeseuon gweledol a chymorth tuag at weithgareddau penodol megis hyfforddiant tŷ bach.

Mae'r Tîm gyda cefnogaeth yr hapddalwyr wedi cyhoeddi argaeledd yr adnoddau ac wedi cefnogi'r broses o'u cyflwyno dwy ddarparu hyfforddiant a sesiynau briffio ar y ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau (gweler isod) a bydd yn gwneud mwy o waith yn ystod y flwyddyn sydd i ddod er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a'r rhaglenni gwerthfawr yma yn cael eu mabwysiadu a'u defnyddio gan ysgolion ar draws Cymru, a thrwy hynny yn cynyddu eu sensitifrwydd i blant awtistig a gwella profiadau plant awtistig yn y system addysg.

**Ystadegau**

**Blynyddoedd Cynnar**
Ers ei lansio ar ddiwedd Medi hyd at 31 Mawrth 2018, mae **283** aelod staff wedi ymgymryd â'r rhaglen hyfforddiant, ac mae **9** Sefydliad Blynyddoedd Cynnar wedi derbyn gwobr LwA dros Cymru.

**Ysgolion Cynradd**
Yn ystod 2017/18, ac ers adroddiad y llynedd, mae **54** ysgol arall wedi derbyn gwobr LwA, ac mae'r canlynol wedi cael ei gyflawni eleni, sy'n codi'r cyfanswm i **80** ysgol ledled Cymru:

- **1568 Staff addysgu**
- **1906 Staff Cymorth Dysgu**
- **12,945 Arwyr Awtistiaeth**

**Ysgolion Uwchradd**
Ers ei lansio ar ddechrau Medi hyd at 31 Mawrth 2018, mae **759** aelod staff wedi ymgymryd â'r rhaglen hyfforddiant, ac mae **3747** o ddisgyblion wedi derbyn y wers Sgilti ac wedi rhoi eu hadduned. Mae 3 ysgol ledled Cymru wedi derbyn gwobr LwA.





**"Weli Di Fi?"**

"Weli Di Fi?" yn rhaglen ymwybyddiaeth awtistiaeth, sydd wedi ei hanelu at hyrwyddo dealltwriaeth a derbyn ymysg cymunedau yng Nghymru er mwyn gwella mynediad at gyfleusterau a lleihau'r stigma y mae nifer o unigolion awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn ei brofi. Mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, a hyd yma mae cerrig milltir arwyddocaol yn cynnwys:

- Cyflawnwyd "Gwobrau Enfys" yng Nghanolfan Siopa Merthyr, Aberdaugleddau, Allfa McArthur Glen Pen-y-bont ar Ogwr, Canolfan Siopa Aberafan ac mae Canolfan Cwmbrân yn gobeithio cael y Wobr erbyn Ebrill 30.

- Mae hyfforddiant y Cynllun wedi cael ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Cymunedol Clwb Pêl-Droed Abertawe; Coleg Neath Port Talbot Gower (CNPTG) er mwyn cynnwys darlithoedd, cefnogi staff a sefydliadau blynyddoedd cynnar o fewn (CNPTG).

- Mae'r gefnogaeth barhaus gan rieni, gofalwyr a busnesau ar draws Cymru wedi bod yn rhyfeddol, a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod y gefnogaeth y mae nifer wedi ei rhoi i ni er mwyn ein helpu i gyflwyno'r cynllun i gymunedau lleol ledled Cymru.

Ymwybyddiaeth am Awtistiaeth
www.ASDinfoWales.co.uk
Autism Aware

## Cyd-drefniant a Darparu Hyfforddiant

Yn ystod y flwyddyn mae'r Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol wedi darparu nifer ac amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi er mwyn cefnogi eu busnes, codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac anghenion penodol pobl ag awtistiaeth; er mwyn cefnogi a chynorthwyo sefydliadau o ran defnyddio'r adnoddau a ddatblygwyd gan y Tîm; ac o ran trefnu comisiynu a darparu hyfforddiant gan gyrff allanol er mwyn cefnogi gwella'r ffordd o ddarparu gwasanaeth, yn cynnwys gan yr IAS. Mae rhai o'r Arweinwyr ASA yn hefyd cefnogi'r darparu hyfforddiant.

Gan ddefnyddio adnoddau *Dysgu gydag Awtistiaeth*. yn ogystal â sesiynau codi ymwybyddiaeth er mwyn dwyn sylw i'r rhaglen a'r adnoddau (e.e. cyflwyniadau i ALNco's a seicolegwyr addysgol) darparwyd yr hyfforddiant canlynol:

- Dysgu gydag Awtistiaeth:

- Blynyddoedd Cynnar: Cyfanswm o 25 o sesiynau hyfforddi ar draws sefydliadau Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru
- Ysgolion Cynradd - 4 sesiwn hyfforddiant, yn cynnwys 3 uwch ysgol ar draws Cymru
- Ysgolion Uwchradd - cynhaliwyd 9 sesiwn hyfforddiant eleni.


- Mae hyd at 10 sesiwn wedi cael eu cynnal ar draws Cymru gan reolwyr Dechrau'n Deg sy'n canolbwyntio ar becyn hyfforddiant Gofal Iechyd a Chymdeithasol i blant, ac maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant Blynyddoedd Cynnar ac wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r broses o gyflwyno'r hyfforddiant mewn sefydliadau lleol.
- 6 sesiwn hyfforddiant ar gyfer Ymwelwyr Iechyd ar ABMU fel rhan o Ddiwrnod Sgiliau Ymwelwyr Iechyd (cyfres o sesiynau) yn canolbwyntio ar becyn hyfforddiant Gofal Iechyd a Chymdeithasol i blant.
- darparwyr hyfforddiant AD yn ystod Ebrill 2017 i staff yn swyddfa LlC ym Merthyr, a sesiwn arall i staff ONS Casnewydd.
- Hwyluswyd 10 sesiwn hyfforddiant hamdden yn Ne Ddwyrain Cymru, yn cynnwys sesiwn hyfforddi'r hyfforddwyr ar gyfer staff Chwaraeon Anabl Cymru, fel y cyfeiriwyd ato uchod.
- Hefyd cynhaliwyd nifer o sesiynau ymwybyddiaeth ASA generig ar gyfer rhwydweithiau busnes, digwyddiadau lleol a chynadleddau.
- Hyfforddiant gweithio gydag Awtistiaeth wedi ei ddarparu i Weithffyrdd Cymru yng Nghastell Nedd Port Talbot a Sir Benfro.

Mae'r hyfforddiant wedi cael ymateb da ym mhob ardal a dibynnir ceisiadau yn rheolaidd.

## Gwefan a Chyfathrebiadau ASDinfoWales

Mae www.ASDinfoWales.co.uk yn cael ei reoli gan y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol. Mae'r wefan yn cael ei diweddaru, ac mae'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer datblygiad cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth.

Rydym wedi gweld cynnydd o 61% o ran defnyddwyr y wefan yn ystod 2017/18 o'i gymharu â 2016, ac roedd nifer y tudalennau yr edrychwyd arnynt yn 2017/18 yn 509,058. Ar gyfartaledd mae yna 6850 o bobl yn defnyddio'r wefan bob mis.



Mae dros 24,000 o bobl wedi ymgymryd â'n cynllun Ymwybyddiaeth ASA gyffredinol yn llwyddiannus.

Mae'r Tîm yn parhau i ddatblygu a gwella gwefan ASDinfoWales ac mae mwy o adnoddau wedi cael eu hychwanegu, enghreifftiau yn cynnwys:-

- **Ap ASA Planner** - roedd wedi cael ei ailddatblygu ac ar hyn o bryd gweithir ar gydymffurfio â rheoliadau GDPR cyn ei lansio.

- Lansiwyd ffilm "**Y Parti Pen-blwydd**" ym Mehefin 2017. Mae'r ffilm yn brosiect partneriaeth rhwng Cymdeithas Awdurdodau Lleol, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aston a phartneriaid seicoleg clinigol, ac fe'i hariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru. Nod y ffilm yw gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol rhwng flaen o awtistiaeth mewn plant, ac mae ar gael ar wefan ASDinfoWales: www.ASDinfoWales.co.uk/news/wlga-press-release-film-collaboration-aiming-to-increase-awareness-of-autism-signs-in-children

  Mae'r Ffilm sy'n datblygu'n cyflym yn esiampl o arferion rhyngwladol gorau, ac fel ymateb i geisiadau a dderbyniwyd, mae hefyd ar gael mewn Latfeg, ac mae yn y broses o fod ar gael mewn Eidaleg, Lithwaneg a Sbaeneg, diolch i waith gan Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru (CYAC) / Auspicious.

- Lansiwyd y **Cynllun Hamdden** ar ddechrau 2017. Gan ddefnyddio dull hyfforddi'r hyfforddwyr, mae swyddogion Chwaraeon Anabl Cymru wedi cael eu hyfforddi i ddarparu hyn, fel bod hyfforddiant yn barhaus, gan ledaenu'r neges a hyfforddi mwy o staff. Mae'r Cynllun Hamdden yn amcanu at gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion unigolion ag Awtistiaeth yn y diwydiant hamdden www.ASDinfoWales.co.uk/leisure-staff

- **Cynhaliwyd 8 digwyddiad rhanbarthol** ar draws Cymru er mwyn rhannu adnoddau rhwng Ebrill/Mai 2017. Cynhaliwyd dwy sesiwn y dydd, un ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac un arall ar gyfer rhieni. Nod y digwyddiadau hyn oedd codi ymwybyddiaeth o waith y Tîm a'n hadnoddau a darparu mwy o wybodaeth mewn perthynas â gwybodaeth am yr IAS, a hefyd eu cynghori am ein cynlluniau newydd a'n helpu i gyflwyno'r cynllun CYSM.

- Yn dilyn ceisiadau rheolaidd am hyfforddiant i'r gwasanaethau brys o amrywiol ffynonellau, ac fel ymateb i ymarferiad cwmpasu a glustnododd yr angen a'r dymuniad i ddatblygu **rhaglen ar gyfer y gwasanaethau brys**, cwblhawyd ffilm hyfforddiant i'r gwasanaethau brys, ac mae pecyn hyfforddant sy'n ategu'r ffilm yn cael ei datblygu yn 2018/19.

- Mae **pecyn hyfforddiant gofal iechyd a chymdeithasol** wedi cael ei gwblhau ac mae'r Tîm wedi comisiynu Aspects - Adult Autism Psychology Ltd i ddarparu'r hyfforddiant ar draws yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd yng Nghymru. Nod y cwrs undydd yw codi ymwybyddiaeth a gwella

dealltwriaeth o awtistiaeth ymysg ymarferwyr gofal iechyd a chymdeithasol arbenigol, a darparu gwybodaeth ynghylch sut mae addasu ymarferion.

- **Rhestr Idiomau** - Fel ymateb i'r broblem y gall nifer o unigolion awtistig ei chael o ran deall rhai o'r idiomau mwyaf cyffredin a ddefnyddir fel rhan o iaith bob dydd, mae'r Tîm wedi datblygu **geiriadur Idiomau ar-lein** yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae ar gael yn wefan ASDinfoWales www.ASDinfoWales.co.uk/idioms-glossary

- Datblygwyd **cynllun tai** ac mae ar gael ar wefan ASDinfoWales. Datblygwyd a peilotwyd y cynllun gyda Chymdeithas Tai Merthyr, a bydd yn rhan o ddatblygu canllawiau diweddariedig yn rhaglen waith 2018/19 www.ASDinfoWales.co.uk/housing-provider-scheme

www.ASDinfoWales.co.uk

## Cymorth ac Ymwybyddiaeth Parhaus Cyffredinol

Mae'r Tîm yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth barhaus i rai sy'n gweithio am maes awtistiaeth ac o ran cefnogi datblygiad ymarfer proffesiynol a chyfnewid gwybodaeth. Yn ogystal â pharhau i drefnu a hwyluso Rhwydwaith ar gyfer Arweinwyr ASA, yn ystod y flwyddyn mae'r Tîm hefyd wedi:

- Sefydlu Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Arweinwyr Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) er mwyn cynorthwyo'r broses o rannu gwybodaeth ac arferion; clustnodi heriau a chwestiynau cyffredin; rhoi'r newyddion diweddaraf i'w gilydd ynghylch cynnydd rhanbarthol a chenedlaethol.
- Cynnal ymarferiad cwmpasu ar gyfer cymuned o ymarfer ar gyfer y rhwydwaith oedolion/IAS ac ailsefydlu ac adnewyddu Rhwydwaith sydd wedi datblygu rhaglen waith glir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r Tîm, fel rhan annatod o'u gwaith, yn cynnal cysylltiadau da ac yn ymgysylltu'n dda â phobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn clywed eu problemau a'u pryderon a helpu i hysbysu eu gwaith.

Mae'r Tîm yn **mynychu nifer o ddigwyddiadau addysgol a diwylliannol** ar draws Cymru yn ystod y flwyddyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ystod eang o adnoddau a ddatblygwyd gan y tîm gyda rhanddeiliaid er mwyn cefnogi pobl awtistig, eu teuluoedd a gofalwyr, ac er mwyn rhoi sylw i'r gwaith sydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wella'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl awtistig, a datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Er mwyn cyflawni hynny, yn ystod 2017/18 bu

i'r Tîm arddangos mewn digwyddiadau Cenedlaethol megis Sioe Llanelwedd, Gŵyl Awtistiaeth ym Mhrifysgol Abertawe, y Sioe Addysg Genedlaethol, Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol a'r Sioe Awtistiaeth Gymreig Genedlaethol, yn ogystal â rhai digwyddiadau ymwybyddiaeth awtistiaeth lleol ledled Cymru.

## Y Flwyddyn o'n Blaenau 2018/19

Mae'r Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol wedi cynhyrchu cynllun gwaith ar gyfer 2018/19 sy'n nodi'r blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y Tîm, a gynhyrchwyd mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru ac ymarferwyr. Mae'n cael ei ategu gan raglen waith gweithgareddau manylach a chyllideb grynodol.

Mae'r Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol yn cefnogi darparu Cynllun Gweithredu Strategol ASA a'r Cynllun Cyflawni mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r Tîm wedi gweithio â phartneriaid ar draws Cymru wrth ymateb i ymgysylltu ag unigolion awtistig a rhieni a gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, er mwyn cynhyrchu set gynhwysfawr o adnoddau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac er mwyn cefnogi oedolion a phlant awtistig, gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau. Mae cynllun gwaith 2018/19 yn gyfuniad o'r gwaith hwn ac mae'n cynnwys yr uchelgais i gyflwyno'r adnoddau ar draws Cymru mewn ffordd effeithiol gyda chymorth partneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r cynllun gwaith yn adeiladu seiliau nifer o flynyddoedd o waith gan bartneriaid, gydag ymrwymiad i gefnogi ac ymateb i anghenion unigolion a phlant awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr.

Mae gweithredu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar draws Cymru yn flaenoriaeth allweddol arall, a bydd y Tîm yn gweithio â'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) er mwyn cefnogi sefydlu a darparu'r gwasanaethau yma yn effeithiol er budd unigolion a phlant ag awtistiaeth a'u rhieni a'u gofalwyr yng nghyd-destun gwasanaethau sy'n bodoli. Mae'r adnoddau y cyfeirir atynt uchod yn cynrychioli tanategiad pwysig i'r gwaith o ddarparu IAS a bydyn yn gweithio yn agos gyda'r Ddeddf Iechyd Y Cyhoedd Cymru i adolygu'r adnoddau yn mynd blaen. Mae blaenoriaethau'r cynllun gwaith yn seiliedig ar gyfuniad o flaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru; trafodaethau parhaus ac adborth anffurfiol gan randdeiliaid; Gwerthusiad o Adroddiad Interim Cynllun Gweithredu Strategol IAS ac ASA [1] a gwybodaeth a phrofiad y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol, gan adeiladu ar waith blaenorol a gwaith presennol.

Bydd cynllun gwaith 2018/19 yn cynnwys adolygiad anffurfiol o rôl a strwythur y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol, a bydd WLGA yn gweithredu argymhellion/newidiadau sydd eu hangen mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru. Yn y cyfnod interim, ac o fewn cyllidebau staff presennol, mae dau Arweinydd Cenedlaethol wedi cael eu

[1] Evaluation of the Integrated Autism Service and ASA Strategic Action Plan: Interim Report, Dr Duncan Holtom and Dr Sarah Lloyd Jones, People & Work, ©Crown, 01/03/2018

penodi dros dro er mwyn cefnogi'r gwaith wrth iddo fynd rhagddo. Mae'r Arweinydd strategol Cenedlaethol yn darparu trosolwg strategol i'r Tîm ac yn ymgysylltu â'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gofal Iechyd a Chymdeithasol cydweithredol a phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid; tra bod Arweinydd Proffesiynol Cenedlaethol yn darparu trosolwg proffesiynol allweddol a mewnbwn i'r Tîm a phartneriaid wrth gyflwyno'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ac adnoddau ASA.

Mae copi o gynllun gwaith y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol ar gael yn [www.ASDinfoWales.co.uk](http://www.ASDinfoWales.co.uk)







# ATODIADAU

## Atodiad Un

Isod ceir adborth a dderbyniwyd yn dilyn yr amrywiol gyrsiau hyfforddi a drefnwyd a/neu a ddarparwyd gan y Tîm fel rhan o'r broses werthuso:

### Hyfforddiant Rhaglen Arsylwi Diagnostig Awtistiaeth (ADOS) - Cyfweliad Diagnostig Awtistiaeth - Diwygiedig (ADiR)

**Os ydych yn dymuno rhoi sylwadau am y cwrs, gwnewch hynny yma:**

"Dywedwyd wrthyf y byddai'r hyfforddiant yn dda, ond nid oeddwn yn sylweddoli pa mor dda y byddai. Mae Carol yn hyfforddwr rhagorol ac mae'n gallu ein helpu i ddeall yr asesiad yn rhwydd, ac yn rhoi hyder i ni i fynd i ffwrdd a'u defnyddio yn broffesiynol."

"Llawn gwybodaeth, defnydd da o ddeunyddiau, digon o gyfle i ymarfer defnyddio'r offeryn, codio ac eglurhad o'r materion oedd yn codi.

"Da iawn a llawn gwybodaeth. Hyfforddwr rhagorol sydd yn amlwg â gwybodaeth a phrofiad helaeth sydd yn ei galluogi i ateb cwestiynau anodd. Trylwyr ond diddorol a phleserus iawn."

### Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Blynyddoedd Cynnar

**A yw'r rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth wedi cynyddu dealltwriaeth o awtistiaeth yn eich sefydliad?**

"Mae'r rhaglen yn sicr wedi cynyddu gwybodaeth yr holl staff ac erbyn hyn maent yn teimlo'n fwy hyderus." *Norfolk House Nursery*

**A fu i'r plant fwynhau animeiddiad Teifi a'i Ffrindiau?**

"Roedd y plant wrth eu boddau â Teifi ac mae rhai o'r rhieni wedi dod i mewn i holi amdano oherwydd bod y plant wedi bod yn siarad amdano adref." *Norfolk House Nursery*

"Bu i'r plant fwynhau animeiddiad Teifi a'i Ffrindiau yn fawr iawn. Roedd yn briodol i'r oedran ac yn llawn gwybodaeth. Rydym eisoes yn teimlo bod rhai disgyblion yn dangos gwell dealltwriaeth o anghenion pobl eraill yn y dosbarth ac ar y buarth. " *SNAP Playgroup*

"Do, mae'r plant wedi dysgu i fod yn fwy goddefgar ac i ddeall yn well. Mae'n ymddangos eu bod yn rhyngweithio'n well ac mae'n hyfryd ei weld. *Zoopers*

**A fyddech yn argymell Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Blynyddoedd Cynnar i sefydliadau eraill?**

"Byddwn yn sicr yn argymell y rhaglen hon ac rwy'n credu ei bod yn rhywbeth y dylai pob sefydliad ei gael a'i wneud" *Norfolk House Nursery*

"Byddwn, oherwydd byddai hynny yn sicrhau dilyniant ymarfer o'r ysgol feithrin i'r ysgol" *MiClub*

## Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Ysgolion Cynradd

**A fyddech yn argymell Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Ysgolion Cynradd i ysgolion eraill?**

"Byddwn 100%! Dim ond un plentyn sydd gennym sydd wedi ei ddiagnosio'n swyddogol ag Awtistiaeth ond gallwn weld nodweddion mewn eraill. Bydd y technegau hyn yn helpu pob un plentyn, ac mae'r ffaith ein bod yn siarad yn agored am awtistiaeth yn rhywbeth arbennig, ac mae rhieni yn fwy hyderus o ran dod i siarad â staff os oes ganddynt unrhyw bryderon neu os ydynt angen cyngor. Rwy'n creu y dylai'r  rhaglen hon gael ei chynnal ym mhob ysgol." *Ysgol Gynradd Alway*

"Yn bendant, yn ddi-gwestiwn. Dylai fod yn rhan naturiol o ABaCh i bob disgybl ac ymarfer dda o ran ymddygiad staff."
*Ysgol Gynradd Cantref*

"Yn bendant.  Mae'n codi ymwybyddiaeth ac yn ei gwneud yn dderbyniol i siarad am y pethau yma.  Mae'n dod yn beth 'normal' i siarad amdano, nid oes neb yn cuddio rhag y mater ac mae'n helpu i amlygu unigolyddiaeth." *Ysgol Gynradd Golftyn*

"Yn sicr, mae'r newid a'r hyder yn rhai o'n plant Awtistig ers cychwyn y cwrs yma wedi bod yn anferth. Rwyf yn teimlo bod y staff wedi eu harfogi'n well i ddelio â sefyllfaoedd nawr, ac mae yna well dealltwriaeth yn gyffredinol." *Ysgol Gynradd Arberth.*

"Yn bendant. Rydym yn ysgol â nifer fawr o staff sydd wedi cwblhau'r cynllun ac sydd wedi dweud pa mor ddiddorol a defnyddiol yr oedd - yn arbennig oherwydd bod gennym ddau Adnodd Sirol ar gyfer plant ar ddatganiad yn ein hysgol." *Ty Ffynnon*

"Byddem yn ei argymell yn gryf ac yn annog unrhyw ysgol i gymryd rhan yn y rhaglen. Bydd nid yn unig yn helpu staff i ddarparu gwahanol strategaethau sydd nid yn unig o fudd i disgyblion awtistig, ond byddant hefyd yn gallu cynorthwyo disgyblion cad ydynt yn awtistig hefyd." *Ysgol y Frenni*

**A yw'r rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Ysgolion Cynradd wedi cynyddu dealltwriaeth o awtistiaeth yn eich ysgol?**

"Yn sicr! Mae'n bwnc yr wyf yn teimlo'n angerddol iawn amdano oherwydd bod fy mab yn Awtistig, ac mae wedi bod mor fuddiol codi ymwybyddiaeth staff nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth. Mae'r holl staff erbyn hyn yn hyderus y gallent adnabod arwyddion ac yn hapus i addasu eu dulliau dysgu i gefnogi pobl allai fod ar y sbectrwm." *Craig yr Wylfa*

"Ydi, mae yna mwy o drafodaeth am Awtistiaeth yn gyffredinol.  Mae athrawon dosbarth yn disgrifio nodweddion mewn plant mewn perthynas â'r ALNCo.  Mae wedi galluogi staff i ddeall ymddygiad mewn plant penodol ac i weithio gyda yn hytrach nag yn erbyn hynny.  Gellir gweld nodweddion mewn nifer o blant ac oedolion, a drwy ddealltwriaeth daw mwy o amynedd a sylweddoliad na fydd pob plentyn yn cydymffurfio'n hawdd.  Mae ymwybyddiaeth synhwyraidd yn rhywbeth na sylweddolwyd yn gyffredinol o'r blaen, a'r anawsterau mae rhai plant yn eu cael gyda chliwiau cymdeithasol." *Ysgol Gynradd Golftyn*

**A fu i'r disgyblion fwynhau'r rhaglen arwyr awtistiaeth?**

"Do. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan bawb. Ni chyfeiriwyd at y plant hynny â nodweddion ASA gan staff na disgyblion mewn perthynas â'r rhaglen. Roedd yr holl ddisgyblion yn derbyn y neges ac yn credu bod yr adduned yn 'cŵl'". *Ysgol Gynradd Cantref*

"Da, roeddent yn ymgysylltu â i, ac yn synhwyrol a sensitif o ran eu hymagwedd ati. Oherwydd bod gan yr ysgol LRB, mae'r plant wedi cael profiad o ac wedi rhyngweithio â phlant ag ASA, ac mae hynny wedi eu helpu i'w deall yn well. *Ysgol Gynradd Llanmartin*

"Bu i'r disgyblion ymgysylltu o ddifri â'r stori ar y wefan ac roeddent yn falch iawn o'u tystysgrifau.  Cyffyrddiad hyfryd sy'n rhan o'r rhaglen. Mae'n wirioneddol yn ymagwedd ysgol gyfan." *Ysgol y Frenni*

## Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Ysgolion Uwchradd

**A fyddech yn argymell Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth Ysgolion Uwchradd i ysgolion eraill?**

"Mae hon wedi bod yn rhaglen hyfryd, ac er fy mod yn teimlo bod gennym fwy o waith i'w wneud - sydd yn fy nghyffroi - rwyf yn wirioneddol yn teimlo y bu'n ymgyrch ymwybyddiaeth ragorol gydag adnoddau da iawn i'ch hategu. Diolch yn fawr iawn." *Ysgol Gyfun Risca*

**A fu i'r disgyblion fwynhau'r wers Sgilti? A ydych yn credu bod y rhaglen wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion?**

"Cawsom adborth da iawn o'r wers Sgilti - bu i rai aelodau staff ddweud bod y trafodaethau yn wych yn y dosbarthiadau blwyddyn a bod y disgyblion yn wirioneddol eisiau deall, gan roi esiamplau da iawn. Yn bendant, mae ein disgyblion yn teimlo eu bod yn 'perthyn' a'u bod eisiau cyfeillgarwch erioed - erbyn hyn mae mwy o ddisgyblion yn siarad â nhw, er enghraifft bu i un disgybl o'r prif lif ofyn i un bachgen a oedd eisiau bod yn ffrind iddo ar Xbox, a bu i hynny gael effaith arbennig o dda ar ein disgybl."
*Ysgol Gyfun Risca*

"Roedd hi'n ymddangos bod y disgyblion yn mwynhau'r wers Sgilti ac yn ymateb yn dda i'r sesiynau. Mae'n ymddangos bod yr holl ddisgyblion wedi dysgu pethau o'r sesiwn Sgilti am awtistiaeth nad oeddent yn ei wybod o'r blaen, ac roedd rhai disgyblion nad oedd ganddyn unrhyw wybodaeth am awtistiaeth yn gallu dweud beth oeddent wedi ei ddysgu am awtistiaeth yn ystod y sesiwn. Rwyf yn credu bod y rhaglen wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion. Mae wedi codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn arbennig ymysg rhai nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am awtistiaeth cyn y wers Sgilti. Mae disgyblion yn ymwybodol o beth allant ei wneud eu hunain er mwyn cefnogi disgyblion ag awtistiaeth." *Ysgol Llanhari*

**A yw'r rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth wedi cynyddu dealltwriaeth o awtistiaeth yn eich ysgol?**

"Do. Arferai ein canolfan fod yn rhan ychwanegol i'r ysgol nad oedd llawer yn ymweld â hi. Erbyn hyn rydym yn cael ymwelwyr drwy'r amser, maent yn dod i dreulio amser gyda'n disgyblion - maent yn dangos cymaint mwy o ddealltwriaeth, er enghraifft pan mae'n rhaid iddynt adael gwers, neu angen lle, a defnyddio'r IEP er mwyn cynllunio ar gyfer ein disgyblion. Mae staff yn dod atom i ofyn am gymorth gyda chynllunio - rydym yn wirioneddol yn teimlo ein bod yn galon i'r ysgol. *Ysgol Gyfun Risca*

"Do, mae gan yr holl staff well dealltwriaeth o awtistiaeth, ac erbyn hyn maent yn ymwybodol o strategaethau cadarnhaol y gellir eu defnyddio, a sut y gallwn roi gwell cefnogaeth i ddisgyblion. *Ysgol Llanhari*

# Atodiad Dau

## Astudiaethau Achos

Coladwyd yr astudiaethau achos canlynol o enghreifftiau o ymarferion ledled Cymru. Maent yn amrywio o enghreifftiau o ymyrraeth cyffredinol o ran cefnogaeth i unigolion ag awtistiaeth a rhieni a gofalwyr, i astudiaethau achos sy'n benodol gysylltiedig â'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig sydd wedi cael eu sefydlu yn ystod 2017/18.

## Rhanbarth Fro Morgannwg a Chaerdydd

### Keith Ingram, Arweinydd ASA Caerdydd a Bro Morgannwg

Cysylltodd adran AD cadwyn genedlaethol o dafarndai / bwytai. Roedd ganddynt weithiwr awtistig yn y rhanbarth a oedd mewn perygl o gael ei ddiswyddo. Roeddent yn chwilio am fewnbwn a chymorth arbenigol i'w rheolwr yn yr eiddo gyda'r bwriad o sicrhau fod y gweithiwr yn cadw ei swydd. Cafwyd 2 gyfarfod byr, un gyda'r rheolwr yn unig a'r ail gyda'r rheolwr a'r aelod staff. Nid oedd y gweithiwr wedi cwblhau modiwl hyfforddiant ar-lein gorfodol a oedd yn ofynnol er mwyn parhau i weithio. Amlygodd y cyfarfod rai meysydd gwybodaeth ynghylch ymwybyddiaeth yr oedd angen i'r rheolwr a'i staff eu hystyried. Argymhellwyd safle ASDinfoWales a edrychodd y rheolwr arni er mwyn darllen ymhellach. Amlygodd y cyfarfod hefyd anawsterau wrth gyfathrebu. Roedd y rheolwr yn bod yn garedig ac yn cyfeirio at oblygiadau peidio â chydymffurfio. Roedd angen siarad plaen a rhoi gwybod i'r gweithiwr y byddai'n cael ei ddiswyddo erbyn dydd Gwener os na fyddai'n ei gwblhau.

**Adborth o'r unigolyn:**
Roedd y gweithiwr yn deall pwysigrwydd cwblhau'r hyfforddiant a dyma oedd adborth y rheolwr, "Diolch o galon i chi am ddod, mae'n deall beth sydd ei angen o'r diwedd ac wrthi ar garlam, a bydd wedi cwblhau'r cyfan erbyn dydd Gwener."

Cwblhaodd y gweithiwr yr hyfforddiant a chadwodd ei swydd.

**Unrhyw wersi a ddysgwyd:**
Mae cyflogaeth yn un o'r pethau hynny sy'n gwneud gwahaniaeth aruthrol i bobl. Mae cael swydd ac incwm sefydlog mor bwysig. Mae pobl yn aml ond yn ceisio cymorth ar y diwedd un, felly mae amser yn aml yn brin. Yn yr achos hwn, roedd yn hanfodol fod cymorth yn cael ei ddarparu yn gyflym iawn. Cadwodd y gweithiwr ei swydd yn yr achos hwn drwy wneud y peth syml hwn a'i wneud yn gyflym.

# Rhanbarth Cwm Taf

## Catherine Smith, Therapydd Lleferydd ac Iaith, Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cwm Taf

Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cwm Taf yn wasanaeth cymharol newydd. Cafodd yr astudiaeth achos canlynol ei ysgrifennu i ganiatáu i'r darllenydd gael dealltwriaeth o'r llwybr Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig o atgyfeiriad i ryddhau.

**Cyflwyniad**
Mae D yn ddyn 22 oed. Cafodd ei atgyfeirio i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig gan wasanaethau Iechyd Meddwl Cychwynnol ar gyfer mewnbwn o amgylch rheoli symptomau pryder, cyfleoedd hamdden a chefnogaeth cyflogaeth. Nodwyd y mewnbwn angenrheidiol ar gyfer ymyrraeth fer, gyda ffocws.

**Cefndir**
Mae D yn byw gyda'i rieni ac mae wedi mynychu cyrsiau coleg o'r blaen. Dywedodd fod y pryder wedi cynyddu pan oedd yn y brifysgol pan oedd yn profi anghysur corfforol a phan oedd ganddo obsesiwn gyda'i iechyd corfforol. Roedd y symptomau wedi lleihau ers iddo ddarfod yn y brifysgol a chymryd meddyginiaeth.

**Atgyfeirio**
Derbyniwyd yr atgyfeiriad ar waith papur yn cynnwys manylion ddiagnosis gyda'r ailgyfeiriad, wnaeth hyn cynorthwyed y broses.

Derbyniwyd yr atgyfeiriad yn wythnos 1.
Cafodd ei brosesu yn ystod cyfarfod atgyfeirio a dyrannwyd i ddau aelod o'r tîm yn wythnos 3.
Roedd ei apwyntiad cyntaf yn wythnos 4.

Apwyntiad Cyntaf
Cynigwyd yr apwyntiad cyntaf yn wythnos 4 gyda chlinigydd a Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

Yn ystod yr apwyntiad cyntaf, cafodd ffurflen hanes achos cychwynnol ei lenwi gyda D. Gofynnwyd i D raddio pa mor dda yr oedd yn teimlo yr oedd yn gallu rheoli amrywiol agweddau o'i fywyd. Roedd hyn yn darparu dealltwriaeth o'i lefel o gipolwg i unrhyw anawsterau, pa un a oedd wedi defnyddio unrhyw strategaethau a pha un a oedd yn fodlon rhoi cynnig ar strategaethau a awgrymwyd. Gan fod D yn siaradus ac yn rhoi ymatebion trwyadl iawn, roedd hyn wedi cymryd dau sesiwn yn hytrach nag un.

Roedd canfyddiadau o'r apwyntiadau cychwynnol wedi eu trafod mewn cyfarfod amlddisgyblaethol yn wythnos 6.

**Mewnbwn**
Cynllun Rheoli Pryder
Roedd y clinigydd wedi diffinio pryder a disgrifio'r effeithiau corfforol posibl. Roedd D wedi nodi sut oedd straen yn effeithio'n gorfforol ar ei gorff. Roedd D yn gallu rhestru sefyllfaoedd a all achosi iddo brofi mwy o bryder. Roeddem wedi defnyddio pecynnau i ddatblygu cynllun rheoli pryder wedi'i bersonoli gyda D yn nodi strategaethau i helpu i reoli ei bryder.

**Gwybodaeth Arwyddbostio**
Roedd y Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd yn trafod a darparu gwybodaeth am weithgareddau chwaraeon a hamdden yn yr ardal.

**Cymorth cyflogaeth**
Dywedodd D nad oedd yn edrych am waith ar hyn o bryd ond byddai'n hoffi cael swydd rhan amser yn y dyfodol. Yn ystod trafodaeth nid oedd yn ymddangos fel petai'n gwybod sut i ddod o hyd i swydd nac ymgeisio amdanynt. Roedd y Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd yn darparu gwybodaeth am y Ganolfan Waith leol a'r gefnogaeth ychwanegol ar gael yno.

**Canlyniadau**
Roedd adroddiad cryno a Chynllun Rheoli Pryder wedi'u llunio a'u hanfon at D yn wythnos 6. Cynhaliwyd adolygiad dros y ffôn dair wythnos yn ddiweddarach. Gwnaed newidiadau i'r adroddiad a dosbarthwyd i'r gwasanaethau yr oedd D yn teimlo oedd eu hangen.

Cafodd yr achos ei ryddhau o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn wythnos 9 gyda gwybodaeth am sut i ailatgyfeirio os oedd angen wedi'i anfon at D a'r atgyfeiriwr gwreiddiol.

## Rhanbarth Gwent

### Sesiwn Gofalwyr NAS Blaenau Gwent

Fe wnaeth gwasanaethau IAS ac ND Gwent gynnal diwrnod codi ymwybyddiaeth 'Dathlu Awtistiaeth' ym Mhont-y-pŵl ym Mawrth 2018. Trefnwyd cyflwyniad ar y cyd rhwng IAS (Gwent) a Rhaglen Cleifion Arbenigol Cymru. Cyflwynwyd sesiwn flasu o reolaeth bwrpasol o straen gofalwyr ar y diwrnod. Ymatebodd rhai a oedd yn bresennol yn gadarnhaol i'r sesiwn flasu hon, a gofyn bod y sesiwn lawn yn cael ei chyflwyno i aelodau o gangen Blaenau Gwent o'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol. Mae hyn yn dangos gallu gwasanaethau i ymateb i alw sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Fe wnaeth dau  sesiwn a hanner i rieni a gofalwyr unigolion ganolbwyntio ar ASD, ac fe'i cyflwynwyd ar brynhawn yn Ebrill 2018. Roedd yn rhoi cyfle i ofalwyr gymdeithasu â'i gilydd a rhannu profiadau. Mae'r cwrs yn cynnig pecyn gwaith i ofalwyr i reoli straen, gan roi cryno ddisg iddynt, fel y gall unigolion ymarfer y

technegau sy'n gweithio iddynt gartref. Mae'r cwrs yn monitro teimladau o straen a hunan-adroddwyd ar ddechrau'r cwrs, ac ar y diwedd.

Canlyniad y ddarpariaeth: Fe wnaeth pob unigolyn a aeth ar y cwrs brofi llai o deimladau o straen.

Roedd adborth gan ofalwyr a ddaeth ar y cwrs yn cynnwys:

> "Roedd sesiwn heddiw'n ddefnyddiol iawn, fe wnaeth fy helpu i sylweddoli fy mod i angen gwneud amser i'n hun fel gofalwr. . . "
> "Bydd Ymwybyddiaeth Ofalgar yn offeryn defnyddiol iawn i mi."
> "Fe wnes i fwynhau popeth a rŵan rydw i'n hamddenol ac wedi ymlacio - gwych!"
> "Mae'r cryno ddisg i fynd gyda chi gartref yn wych, fel y gallwch barhau ar ôl heddiw"
> "Rydw i'n gwybod sut i feddwl ar fy nhraed i gynnwys hwn yn fy niwrnod, neu pan gewch chi ychydig o amser i'ch hun"

## Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gwent

Mewn digwyddiad lles, daeth rhiant ataf, yn holi a oeddwn yn adnabod unrhyw un a allai weithio gyda'i mab i'w helpu i ddeall ei faterion ynghylch y glasoed. Roedd wrth ei bodd pan ddywedais fy mod i yn adnabod rhywun, a gofynnodd "Pwy?" Dywedais wrthi i gyfeirio at yr IAS a esboniodd ei fod hyn yn rhywbeth y gallem ei gynnig, ac mai fi mewn gwirionedd fyddai'n gweithio gyda'i mab. Proseswyd yr atgyfeiriad yr wythnos ganlynol. Mewn ychydig o sesiynau fe weithiais gyda'r dyn ifanc i ddeall y newidiadau roedd yn ei brofi yn ei fywyd.

Ar ôl y cyfnod o waith, derbyniais y canlynol gan ei fam.

> *"Annwyl S*
>
> *Rwy'n ysgrifennu hwn i ddweud Diolch o Galon.*
>
> *Dydw i ddim yn gallu credu sut mae L yn ymdopi â'r cam hwn o'r glasoed ers eich ymyrraeth a'r Stori Gymdeithasol argraffedig.*
>
> *Diolch yn fawr iawn am ddod i'n cartref yn 2017 ar dri achlysur ac eistedd i lawr gydag L tra ei fod wedi bod yn cael trafferth dod i delerau ac ymdopi â'r cyfnod llawn straen yma yn ei fywyd.*
>
> *Fe wnaethoch chi wrando'n amyneddgar ac ateb cwestiynau L.*
>
> *Fe wnaethoch baratoi, argraffu a lamineiddio stori gymdeithasol sy'n berffaith i L ddeall yn ystod y cyfnod amser hwn.*
>
> *Fel rhiant sengl yn magu bachgen yn ei arddegau sydd gyda diagnosis o ASD ac ADHD, ni allaf ddiolch i chi a'ch gwasanaeth ddigon.*

*Dydw i ddim yn cael fy llethu bellach â 'chwestiynau'r glasoed'.*

*Roedd yr holl gwestiynau'n ychwanegu at fy mhryder gan fy mod i mewn iechyd gwael.*

*Diolch yn fawr iawn.*

*Cofion cynnes,*

## Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gwent

Fe wnaeth is-grŵp o atgyfeiriadau a ddaeth i law yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) (Gwent) ddangos angen i gefnogi merched ifanc, awtistig, i ddeall perthnasau yn ogystal â chadw'n ddiogel ar-lein. Mewn sawl achos, cafodd y merched hyn eu cydnabod o fod yn ddiamddiffyn i gamdriniaeth ac/neu camfanteisio.

Fe wnaeth un unigolyn (SO) hunan-nodi anawsterau wrth reoli perthnasau rhyngbersonol, yn ogystal â phrofiadau trawmatig yn ymwneud â rhyw. Ymatebodd yr IAS i'r galw hwn drwy gysylltu â phartner trydydd sector i roi cefnogaeth i'r merched ifanc hyn. Mae'r Prosiect SAFE (Ymwybyddiaeth Rywiol i Bawb) wedi'i gomisiynu (gan y Gronfa Loteri Fawr) i gyflwyno sesiynau dan arweiniad cymheiriaid, sy'n cefnogi merched ifanc anabl i ddeall cyfeillgarwch, perthnasau a chadw'n ddiogel ar-lein. Cafodd hyn ei ddarparu ar y cyd gyda SAFE a'r IAS yn Ebrill/Mai 2018.

Fe wnaeth SO fynd i dair allan o'r pedair sesiwn, ac ymatebodd yn gadarnhaol i'r dull dan arweiniad cymheiriaid. Dywedodd SO y byddai'n hoffi rhannu beth roedd wedi'i ddysgu gyda merched ifanc eraill. Fe wnaeth y prosiect SAFE gynnig swydd wirfoddol i SO, a bydd SO yn helpu i gyflwyno ar gyfer grŵp ar y gweill yn ystod haf 2018. Bydd SO hefyd yn gweithio tuag at gyflawni gwobr achrededig Gwirfoddoli'r Mileniwm.

## Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gwent

Dyddiad Dechrau: 08/01/18, Dyddiad Gorffen: 21/05/18, Nifer y cysylltiadau: 9, Math o atgyfeiriad: hunan-atgyfeiriad

**Nodau y cytunwyd arnynt gyda unigolion:**

1. I fynd allan o'r tŷ yn amlach gyda'r nod o ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth.
2. I ddysgu sut i fancio dros y rhyngrwyd.

Cododd yr atgyfeiriad ar ôl cyfarfod gyda grŵp rhieni a gofalwyr yn dweud wrth aelodau o'r grŵp am y gwasanaeth newydd. Daeth mam faeth A draw i'r cyfarfod i

wybod pa gefnogaeth a gynigir gan yr IAS. Daeth yr atgyfeiriad drwy'r Tîm Aml Ddisgyblaeth a phenderfynwyd fy mod yn mynd i weld A i weld pa gymorth y mae'n teimlo y mae ei angen.

I ddechrau, roedd A yn dawel iawn ac ni fyddai'n rhannu llawer gyda mi. Ceisiwyd caniatâd ar yr ymweliad cyntaf ac fe wnes i A yn ymwybodol o sut y gallwn weithio gydag ef, a'i fod ar gyfer nod y cytunwyd arno. Yn y dechrau, roeddwn yn treulio llawer o amser yn ceisio adeiladu perthynas dda gyda'r unigolyn ac yn dangos diddordeb yn ei ddiddordebau ef. Fe wnes i dreulio llawer o amser yn defnyddio 'meddwl yn canolbwyntio ar yr unigolyn' i helpu A i weld safbwyntiau pobl eraill ac i gydnabod a chymryd cyfrifoldeb am sut mae'n treulio ei amser.

Prif elfennau'r gwaith hwn oedd: Meddwl yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Adeiladu perthnasau gyda'i frodyr ieuengach a chynyddu hyder i adael y tŷ. Mae yna fwlch oedran mawr rhyngddo ef a'i frodyr ieuengaf, ac mae A wedi'i chael yn anodd cysylltu â nhw. Mae hyn yn parhau ac yn rhywbeth i A barhau i weithio arno, gan ei fod yn dal i'w chael yn anodd treulio amser gyda nhw.

Mae'r ymyriad wedi'i ystyried yn llwyddiant gan A ac aelodau'r teulu. Aethom drwy restr o ymyraethau a ddefnyddiwyd yn y sesiwn derfynol ac fe ystyriwyd y mwyafrif yn llwyddiant. Mae wedi mynd o adael y tŷ dim ond ar gyfer mynd i'r coleg drwy ei dacsi, i fynd i grŵp cymdeithasol ar ddau achlysur, cerdded y ci'n rheolaidd, mynd i'r pentref i brynu eitemau a gofyn am ffurflenni yn y swyddfa bost, teithio ar y bws ei hun i drefi lleol fel Casnewydd. Roedd yn arfer treulio ei holl amser yn ei ystafell heblaw am amser bwyd, ac mae bellach wedi rhoi sylw i hyn a bydd yn gwneud mwy o ymdrech i dreulio amser gyda'i deulu. Rydw i wedi ymchwilio i opsiynau cwrs coleg gydag ef ac wedi'i annog i feddwl am ei gynlluniau bywyd yn y dyfodol. Heb fy nghymorth mae wedi gallu siopa ar-lein ac wedi prynu blodau i'w fam yn annisgwyl ar Sul y Mamau.

## Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gwent

Astudiaeth Achos B

Dyn 54 oed wedi'i gyfeirio ar gyfer asesiad diagnostig gan ei Meddyg Teulu. Mae mewn cyflogaeth llawn amser ac yn rheoli tîm. Roedd yn arfer bod yn briod, a hynny am 20 mlynedd, ac mae ganddo 3 o blant. Perthynas newydd ers y 3 blynedd diwethaf a'i gymar a awgrymodd ei fod yn cael asesiad am iddi ei ddisgrifio "fel jwg wag yn emosiynol". Hyd at y pwynt hwn, nid oedd wedi cael unrhyw arwydd bod unrhyw broblem gyda'i emosiynau neu gyfathrebiad cymdeithasol.

Mae'n rheoli tîm o bobl yn y gwaith, mae ganddo swydd gyfrifol a'i ffocws yw ei swydd, y mae'n frwd iawn drosti.

Yn ein cyfarfod cyntaf, roedd yn emosiynol a thrist iawn bod ei gymar wedi'i ddisgrifio'n 'wag'. Nid oedd yn sylweddoli ar y meysydd o'i wahaniaethau, byddai'n gwylio rhaglenni sebon, ac yn credu fod yr hyn a ystyriai'n rhyngweithio

cymdeithasol, dadleuon ac ati yn ffordd arferol o ymddwyn. Unwaith y dechreuodd edrych ar Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, dechreuodd sylweddoli ei fod â nodweddion tebyg ac fe wnaeth pethau deimlo fel eu bod yn 'clicio'.

Cafodd ddiagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, i ddechrau, roedd yn teimlo'n 'isel' ac fe gymerodd amser i dderbyn y peth, ond yna fe ddechreuodd gael gwell dealltwriaeth o'i hun. Nid oedd yn sicr a ddylai ddatgelu ei ddiagnosis i'w blant, ond cymerodd y penderfyniad i ddweud wrth ei ferch hynaf, gan ddisgrifio'r berthynas a gawsai gyda hi fel 'anodd'. Disgrifiodd y cyfarfod gyda'i ferch yn dilyn ei ddatgeliad iddi fel "anhygoel" gan nad oedd hi wedi'i synnu ac roedd hithau hefyd yn meddw; efallai ei fod ar y Sbectrwm Awtistiaeth. Roeddent yn gallu trafod llawer mwy na'r diagnosis ac mae wedi newid eu perthynas er gwell. Mae'n dechrau cael mwy o ymwybyddiaeth o'i hun mewn perthynas ag Awtistiaeth a'i wahaniaethau, ac mae ef a'i gymar yn gweithio ar hyn. Roedd yn meddwl bod y broses gyfan yn oleuedig ac wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w fywyd.

## Grŵp Llywio ASA a Niwroddatblygiad Trydyddol Casnewydd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), BIPAB, ardal Gwent

**Grwpiau Rhithwir ar gyfer Rhieni a Gofalwyr ymsefydlu i darparu:**
- cefnogaeth ôl ddiagnostig yn rhithwir
- ar gyfer rheini/gofalwyr plant awtistig yn BIPAB
- mewn modd amserol, effeithiol a chyfartal

**Pa faterion oedden ni'n dymuno rhoi sylw iddynt?**
- cefnogaeth ôl ddiagnostig anghyfartal a thameidiog
- cynnydd mewn galw ac adnoddau cyfyngedig
- Ardal ddaearyddol fawr i'w gwasanaethu
- Defnydd amhriodol o adnoddau –cyflwyno fel argyfwng
- Cynnydd mewn cyfraddau atgyfeirio i CAMHS
- Pryder rhieni a straen ar deuluoedd

**Beth yw barn cleifion am y broblem?**
Adborth gan ofalwyr – ceisio cael gwasanaethau all helpu eu plentyn gydag ymddygiad, pryder, pontio, problemau synhwyraidd, gwneud ffrindiau ayyb.

**Mesurau**
Sylfaenol
- Prawf o'r cysyniad o grwpiau rhithwir fel ymyrraeth therapiwtig

Proses
- Logisteg corfforol a staffio –rhedeg grwpiau rhithwir (sesiynau, amser teithio, amser paratoi)
- Ymateb a phryderon staff

Canlyniadau

- Rheini/gofalwyr sy'n defnyddio/ymgysylltu (nifer y rhai wnaeth/wnaeth ddim mynychu)
- Atgyfeiriadau i'r gwasanaeth
- Bodlonrwydd rhiant/gofalwr
- Gwerthuso deilliannau clinigol

**Peth o'r adborth a gafwyd gan deuluoedd:**

- "Modd i bobl ofyn cwestiynau"
- "Gwybodaeth ddefnyddiol dros ben"
- "Rhyngweithio a chwestiynau unigol"
- "Sut i ymdopi pan fydd pethau'n mynd o chwith"
- "Mae'r strategaethau ar sut i ymdopi pan fydd pethau'n mynd o chwith yn dda ac yn ddefnyddiol iawn. Mwy o'r grwpiau yma plîs!"
- "Yn gallu gofyn cwestiynau am anghenion yn y cartref"
- "Cysyniad wedi'i wireddu"
- "Rhannu gwybodaeth"
- "Yn berthnasol i sefyllfaoedd personol"
- "Mae fy marn i o TG electronig wedi mynd i fyny"
- "Cael cysylltu ag eraill yn ogystal â chael cyngor defnyddiol am strwythur"
- "Yn cael cyswllt proffesiynol wyneb yn wyneb"
- "Yn arbed amser ac yn caniatáu mynediad i bobl brysur"

Dilynwch y ddolen yma i weld ffilm a ddatblygwyd ar y cyd â theuluoedd/gofalwyr am y grwpiau hyn

https://vimeo.com/210083636 (cyfrinair: together)

## Rhanbarth Gogledd Cymru

### Dyn Awtistig (a gafodd ddiagnosis yn 2017 fel oedolyn)

Mae'n gweithio fel swyddog gorfodi cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn cael ei gynrychioli ar grŵp gweithredol Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru.

> *"Fel llawer o bobl, dwi'n amau, roedd fy nealltwriaeth o Awtistiaeth yn seiliedig ar sawl cymeriad fel y 'Rain Man', 'dwi wedi cael agoriad llygad ers hynny! Rwyf ymysg llawer o bobl sydd wedi dod ar draws nifer o faterion sydd wedi achosi llawer o straen a phryder i mi fel oedolyn. Rwyf wastad wedi teimlo ychydig yn wahanol ac yn fewnblyg, ond gan fod gen i deulu cefnogol ni fu bron erioed yn broblem. Am sawl rheswm, penderfynais archwilio os oeddwn ar y Sbectrwm Awtistig, er mwyn ceisio cael addasiadau rhesymol yn y gweithle o bosib.*

*Doedd fy mhrofiad cychwynnol o geisio cael help ddim yn wych; nid oedd fy Meddyg Teulu i'w weld yn gallu gweld arwyddion gweddol glir, er fy mod, er tegwch, yn eu cuddio fel nifer o oedolion eraill. Pan ddysgais bod rhestr aros o flynyddoedd, penderfynais geisio diagnosis yn breifat. Er bod fy niagnosis yn bwysig, mewn gwirionedd dim ond cadarnhau beth roeddwn eisoes yn wybod ar ôl darllen sawl llyfr, gwefan ayb yn ddwys wnaeth hynny, ond mae wedi bod yn allweddol er mwyn ceisio gwneud addasiadau yn y gwaith.*

*Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn mewn hunan ymwybyddiaeth, drwy amsugno'r holl wybodaeth ddefnyddiol sydd ar gael, gwneud newidiadau i fy ffordd o fyw, a derbyn fy hun, wedi golygu gwelliannau sylweddol i fy iechyd a'm lles. Rydw i bellach yn wirfoddolwr gyda'r Tîm Cymorth Awtistiaeth Integredig yng Ngogledd Cymru ac rydw i'n gobeithio helpu pobl eraill drwy fy mhrofiadau.*

*Mae'n fy mhoeni bod y rhan fwyaf o bobl yn gorfod aros cymaint nes cael mynediad at ddiagnosis, ond diolch byth mae camau gweithredu positif wrth law i helpu i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r gwaith sydd angen ei wneud yw'r diagnosis. Gweithio gyda beth sydd eisoes gennym ni, tynnu gyda'n gilydd a chefnogi gweithwyr proffesiynol ymroddedig sy'n gweithio'n galed yw'r ffordd i helpu'r rheiny sydd ar y Sbectrwm, a allai fel arall gwympo drwy'r craciau a glanio mewn argyfwng. Mae diagnosis, cymorth cyn / ar ôl diagnosis, codi ymwybyddiaeth, atgyfeirio, hyfforddi, darparu gwybodaeth (e.e. gwefan wych ASDinfoWales) ac yn y blaen yn hanfodol bwysig yn fy marn i a gorau po gyntaf y bydd popeth yn cwympo i'w le."*

## Rhanbarth Powys

### Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Powys

Derbyniodd cleient ddarn o waith ar y cyd a'i brif fwriad oedd cynyddu annibyniaeth a thorri'r cylch o ddychwelyd at y tîm argyfwng ac anfon i'r ward.

Roedd iechyd meddwl yn parhau i gefnogi anghenion iechyd meddwl y cleient tra mai rôl y gweithiwr cefnogi oedd i gynyddu hyder yr unigolyn ifanc o ran cael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i fynychu grŵp cymdeithasol heb gymorth gyda theithio. Roedd hyn yn gam pwysig ymlaen ar y ffordd tuag at annibyniaeth i'r unigolyn hwn.

Aeth o fod yn dawel a swil, ansicr, gyda'i ben wedi gwyro fymryn bob amser i fod yn amlwg yn cerdded yn dalach. Nid yn dalsyth eto, ond yn bendant yn llawer mwy sicr ohono'i hun ac yn falch o'r hyn roedd wedi'i gyflawni. Mae'r gŵr ifanc nawr yn edrych ymlaen at fynd i'r coleg ym mis Medi a gallu mynychu'r grŵp Cymdeithasol a Hamdden fel a phryd y mae'n dymuno heb orfod dibynnu ar eraill i fynd yno.

**Adborth o’r unigolyn:**
Mae Daniel yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a nabod y bydau mha hyn yn dod iddo ar ei thaith i annibyniaeth. Mae fe yn gwybod mae'n gallu mynd allan ychydig bach yn fwy nac mae wedi gwneud yn ddiweddar ac mae hyn wedi helpu fe'n teimlo’n fwy hyderus yn gyffredinol.

**Unrhyw wersi a ddysgwyd:**
Mae'r harddwch o gydweithio pan mae pob gwasanaeth yn chwarae i'w cryfder ac yn gydamserol amlapio ei hunain rownd y person i ddarparu'r gefnogaeth sydd anghena. Cyflenwyd hyn gan y gweithwyr proffesiynol ynglŷn wrth aros mewn cysylltiad ogledd, ond nid camu a bob bysedd traed eraill. Mae cael ffydd rhwng y gwasanaethau yn un mor bwysig â ffydd rhwng yr ymarferwyr a'r cleientiaid.

## Bae’r Gorllewin

### Tîm Chwarae Plant, Abertawe, Bae'r Gorllewin

Mae’r Tîm yn cynnig Sesiynau Chwarae Mynediad Agored ar fws chwarae 40 troedfedd. Yn dilyn trafodaethau gyda’r Grŵp Mynediad i Chwarae (grŵp traws-sector sy’n mynd i’r afael â mynediad i chwarae yn Abertawe) a rhieni / cynhalwyr, ac roedd rhai plant a phobl ifanc n teimlo fod natur gyfyng y bws, yn ogystal â’r sŵn, goleuadau a phlant eraill yn eu gwneud i gadw draw.

O ganlyniad, agorwyd sesiynau wedi eu hanelu at y rhai hynny sydd ag anghenion ychwanegol yn syth cyn ein sesiynau cyhoeddus. Yn y rhain gwnaethom ystyried yr offer, yr amgylchedd synhwyraidd a sicrhau fod y staff yn deall anghenion ychwanegol, yn arbennig awtistiaeth.

Y bwriad oedd sicrhau eu hawl i gael mynediad i chwarae ond hefyd i gefnogi integreiddiad gan y gallai’r sesiwn gychwynnol wneud i’r plentyn deimlo’n gadarnhaol ac yn gyfforddus a dewis aros ar y bws ar gyfer y sesiwn gyhoeddus lawn.

**Adborth wrth aelodau’r grŵp:**
Rydym wedi derbyn llawer o adborth cadarnhaol gan rieni/ cynhalwyr ac roedd yn amlwg fod y bobl ifanc eu hunain yn cymryd rhan ac yn mwynhau chwarae.

Roedd y rhan fwyaf yn dal i deimlo’n anghyfforddus pan roedd plant ychwanegol yn cael eu cyflwyno, ond dywedodd nifer o rieni / cynhalwyr eu bod yn aros pan na fyddent wedi dod o gwbl fel arfer.

## Addysg, Cyngor Abertawe, Bae'r Gorllewin

Mae Cyngor Abertawe wedi buddsoddi swm o arian i ddarparu Gwasanaeth Allgymorth i staff a disgyblion ysgolion prif ffrwd sydd angen cymorth ac mewn perygl o gael eu heithrio gan nad oes ganddynt adnoddau a chyfarpar digonol nac wedi cael digon o hyfforddiant i ddiwallu anghenion disgyblion sydd wedi derbyn diagnosis o awtistiaeth. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynyddu sgiliau staff yn y lleoliadau hyn fel eu bod yn gallu diwallu anghenion 38 o ddisgyblion mewn 35 ysgol ar draws yr awdurdod. Mae ystod o hyfforddiant, adnoddau a 'chyfnewid swyddi' / sylwadau wedi golygu fod gwell dealltwriaeth gan staff o ASA a'r strategaethau sy'n effeithiol wrth gynorthwyo disgyblion a sicrhau eu bod yn rhan o'r dosbarth a'r ysgol gyfan. Mae'r gwasanaeth wedi ei ddarparu gan ystod o staff cymwys a phrofiadol iawn o Ysgol Pen-y-Bryn ynghyd ag arbenigwr awtistiaeth yr awdurdod lleol. Caiff disgyblion eu nodi drwy'r panelau Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u hanfon ymlaen at y tîm sydd ar unwaith yn dechrau cefnogi ag ymyrryd gyda chyfradd lwyddiant ardderchog.

**Adborth wrth aelodau'r grŵp:**
Mae'r adborth gan ysgolion, penaethiaid, rhieni, staff a'r awdurdod lleol wedi bod yn arbennig o gadarnhaol ac mae pob achos wedi bod yn llwyddiant. Cafwyd adborth unigol gan ysgolion sydd wedi diolch yn bersonol i staff am eu cyfraniad sydd wedi newid profiadau disgyblion yn yr ysgol ac am y berthynas gyda rhieni. Mae hefyd wedi newid meddylfryd staff sydd bellach yn gallu, gyda'r wybodaeth y maent wedi ei chael, addasu eu dulliau, eu haddysgu a'u darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion fel y maent yn haeddu. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi nodi angen am ragor o gymorth, hyfforddiant a darpariaeth ar draws yr awdurdod. Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y tîm ASA, yr Uned ADY a staff Pen-y-Bryn sydd wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd yn golygu eu bod wedi paratoi cynlluniau gweithredu i sicrhau bod y gefnogaeth yn parhau'n effeithiol a bod y gwasanaeth yn cael ei gyfeirio i ddechrau at y rhai sydd fwyaf angen yr ymyrraeth. Bydd hyfforddiant ysgol gyfan yn parhau i gael ei dargedu fel rhan o'r gwasanaeth hwn.

**Unrhyw wersi a ddysgwyd:**
Mae'n amlwg fod yr angen yn fwy na'r capasiti a gynlluniwyd gennym i ddechrau. O ganlyniad, mae rhagor o staff wedi eu cynnwys, eu hyfforddi i ddarparu a rhagor o staff o Ysgol Pen-y-Bryn, staff cymorth a disgyblion ar draws yr awdurdod.

Mae angen i hyfforddiant ysgol gyfan godi ymwybyddiaeth o ASA a dulliau a strategaethau i gefnogi'r disgyblion hyn barhau i fod yn ffocws ar draws pob ysgol, fel bod gan staff ddarpariaeth ddigonol i gynnig yr addysg orau i bob un disgybl.

## Gwaith ar y Cyd yn Abertawe rhwng yr Arweinydd ASA a Choleg Gŵyr Abertawe

Yn dilyn trafodaeth mewn cyfarfod grŵp llywio ASA lleol, roedd Coleg Gŵyr Abertawe yn awyddus i wella ymwybyddiaeth o awtistiaeth a chymryd ymagwedd

coleg cyfan.  Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn goleg addysg bellach sy'n cynnig addysg bellach a chyrsiau hyfforddiant eraill o sawl campws a lleoliad yn yr ardal.

Fel Arweinydd ASA rwyf wedi eu cefnogi i greu cynllun i fod yn lleoliad a busnes Addysg Bellach Ymwybodol o Awtistiaeth.

Penderfynom gyda'n gilydd i ddechrau gyda'r Coleg fel cyflogwr Ymwybodol o Awtistiaeth, sydd wedi cynnwys sesiynau Ymwybyddiaeth Awtistiaeth i dros 120 o reolwyr a goruchwylwyr ar ddau gampws y coleg. Mae pob un wedi cwblhau'r rhaglen Ymwybyddiaeth Awtistiaeth AD ac wedi derbyn tystysgrifau.

Mae cynlluniau i ehangu hyn drwy'r holl dimau o staff a myfyrwyr i sicrhau fod y coleg yn amgylchedd sy'n ymwybodol o awtistiaeth.

**Adborth wrth aelodau grŵp:**
Cafodd y sesiynau eu croesawu'n fawr a galluogodd y rheolwyr i sôn am fendithion cyflogi unigolyn awtistig mewn lleoliad Addysg Bellach, yn ogystal â sôn am sut y gellid chwalu rhwystrau i helpu recriwtio a chynorthwyo gweithwyr awtistig.

Mae cynlluniau i wneud rhai addasiadau i recriwtio a dethol ac ymsefydlu i wella'r cyfleoedd i gyflogi oedolion awtistig yn y coleg.

**Unrhyw wersi a ddysgwyd:**
Mae hon wedi bod yn broses hir gan ei bod yn cymryd amser i sicrhau y gall pobl ddod o hyd i'r amser i fynd i sesiynau.

Rydym wedi dysgu fod rhyngweithio wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau fod negeseuon allweddol yn cael eu derbyn a'u trafod, yn hytrach na dim ond rhannu dolenni at hyfforddiant.

## Rhanbarth Gorllewin Cymru

### Tîm Cefnogi Cynnar cynhwysiant, Cyngor Sir Penfro, Gorllewin Cymru

Mae ein tîm yn fy nghynnwys i, athro/athrawes ymgynghorol ar gyfer awtistiaeth, therapydd galwedigaethol, therapydd a gweithiwr cefnogi allgymorth a Chymhorthwyr Therapi Lleferydd ac Iaith.

Trefnais gynhadledd Lles ASA ym mis Mawrth eleni. Roedd dwy nod i'r gynhadledd, dysgu strategaethau i helpu'r person ifanc gydag ASD yn eu gofal a strategaethau iddynt ofalu am eu lles eu hunain hefyd. Yn ogystal, gobeithiwyd y byddem, fel hyn, yn mynd i'r afael â phryderon cynyddol ac yn creu trafodaeth ynghylch iechyd meddwl a lles ein pobl ifanc gydag ASA.

Roedd y gynhadledd yn cynnwys siaradwyr o Iechyd (paediatregydd), ASDinfoWales, Seicolegwyr Addysg, Seicotherapydd Cerdd ac unigolyn gydag awtistiaeth. Roedd y gweithdai yn gylchol ac yn cael eu darparu gan: Therapydd Galwedigaethol (Cymorth pryder prosesu'r Synhwyrau), Therapydd Lleferydd ac Iaith (yn edrych ar yr iaith i'w defnyddio gyda disgyblion ADA pan eu bod wedi cynhyrfu / lefelau blanc) a gweithdy ymwybyddiaeth ofalgar wedi ei arwain gan athro yoga sydd hefyd yn Therapydd Lleferydd ac Iaith yn Sir Benfro.

Roedd hwn yn gwrs i rieni a gweithwyr proffesiynol (addysgol yn bennaf, rhai o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol) ac roedd cymysgedd dda a oedd yn wych ar gyfer rhwydweithio. Roedd y mwyafrif yn rieni. Roedd nifer dda iawn yn bresennol gyda 80 o gynrychiolwyr yn y gynhadledd.

Roedd gan ein Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni a ASDinfoWales stondinau, gyda chiwiau o rieni a gweithwyr proffesiynol a oedd yn sgwrsio gyda nhw.

**Adborth wrth aelodau grŵp:**
Roedd adborth yn arbennig o gadarnhaol. O'r 80+ a oedd yn bresennol, dychwelodd 50 ffurflenni adborth ac roedd y sgôr uchaf, sef DA IAWN ar bob un ohonynt ac eithrio 7 DA. Roedd yr adborth yn debyg ar y cyfan ar bob ffurflen. Roedd y cynrychiolwyr wrth eu boddau'n clywed llais y person gydag awtistiaeth, roeddent yn dymuno cael mwy o amser yn y gweithdai ac i'r digwyddiad gael ei ailadrodd. Roedd rhai o'r ffurflenni adborth yn eich cyffwrdd, gyda rhieni yn ddiolchgar iawn am y digwyddiad a'r codi ymwybyddiaeth.

**Unrhyw wersi a ddysgwyd**
Ar y cyfan roedd yn ddiwrnod gwych. Rhai o'r cryfderau oedd yr ymgysylltu amlasiantaethol, y cynnwys amrywiol a'r cyfleoedd rhwydweithio a thrafod anhygoel.

I wella: Gallai'r ystafell fod wedi cael ei chylchdroi'n fwy esmwyth ond yn ffodus llwyddodd pawb i ymdopi gyda gwen! Cynnwys rhagor o bobl gydag ASA a mwy o amser ar gyfer gweithdai.

## Arweinydd ASA
## (rhanbarth wedi ei hepgor er mwyn i'r bobl ifanc fod yn anhysbys)

Mae "Ymgysylltu i Newid" yn brosiect ledled Cymru sy'n rhoi lleoliadau gwaith i bobl ifanc gydag awtistiaeth ac / neu anabledd dysgu. Mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn lleoliadau gwaith gyda'r nod yn y pen-draw o drosglwyddo i swyddi parhaol. Cynhelir y prosiect gan ddarparwyr cyflogaeth â chymorth. Nid yw'r darparwr yn gallu gwneud hyn ar ei ben ei hun, mae angen i gyflogwyr ddarparu lleoedd i'r bobl ifanc fanteisio arnynt. Awdurdodau Lleol yw rhai o gyflogwyr mwyaf Cymru. Gweithiodd yr arweinydd ASA gydag uwch reolwyr Awdurdod Lleol i gael cytundeb gan yr adran AD i ymgysylltu â'r darparwr cyflogaeth â chymorth a derbyn lleoliadau.

Un ffactor wrth gyflawni hyn oedd ymwybyddiaeth yn yr adran AD fod ganddynt gefnogaeth lawn yr arweinydd ASA.

**Adborth o'r unigolyn neu aelodau grŵp:**
Wrth ysgrifennu, mae'r 2 unigolyn ifanc cyntaf mewn lleoliadau. Mae un wedi ei gosod mewn lleoliad sy'n darparu gwybodaeth uniongyrchol i'r cyhoedd. Yn ystod ei chyfnod yno, mae hi wedi derbyn ei thystysgrif "Agored Cymru" mewn gofal cwsmeriaid. Roedd yn arbennig o braf fod y staff mor barod i'w chymryd o dan eu hadain. Cafodd ei gwahodd i'w parti Nadolig a gwnaeth y tîm ei chynnwys yn eu Siôn Corn Cudd, felly cafodd groeso mawr i mewn i'r tîm. Mae person ifanc arall wedi ei leoli yn yr adran gyllid. Maent hefyd wedi bod yn anhygoel, symudwyd ei diwrnod gwaith i ddydd Gwener gan ei fod yn "ddiwrnod cacennau" a gwnaethant hefyd symud eu Siôn Corn Cudd er mwyn iddi hi fedru bod yno a chael ei chynnwys.

Felly mae'r ddau dîm wedi gwneud mwy na dim ond cynnig cyfle am leoliad, a fyddai'n bositif ynddo'i hun, ond maent wir wedi mynd yr ail filltir ac wedi cynnwys y bobl ifanc yn rhai o agweddau cymdeithasol y gweithle.

**Unrhyw wersi a ddysgwyd:**
Gallai ymddangos yn anodd cynnwys pobl ifanc gydag anableddau yn y gweithle. Yr hyn mae'r astudiaeth achos hon yn ei ddangos yw fod hyn yn fwy na phosibl drwy ymgysylltu ag asiantaethau sy'n cynnig lefelau priodol o gymorth, drwy sicrhau fod uwch reolwyr yn cytuno iddo a drwy gefnogi'r adrannau dan sylw I ryw raddau, mae cyfrifoldeb moesol ar gyflogwyr mawr yn y sector cyhoeddus i arwain drwy ddangos esiampl a bod yn weithle sy'n dangos cydraddoldeb gwirioneddol. Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw wrthwynebiad i'r dull hwn, dim ond dymuniad i gael eu cefnogi i'w weithredu.